CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 26ain MEHEFIN 2018.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorwyr Ms Linda Jones & Ms Rhian Roberts.

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts, Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones..

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

3.2.1 Ni oedd neb yn datgan diddordeb.m yn cael ei thrafod.

4 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (26ain Mehefin 2018).

4.1 Angen cywiro cofnod 9.3 & cofnod 10.1 lle dylai cyfeirio at Mr Dafydd Hughes ac nid Mr O G Jones

4.2 Ar ol y cywiro, derbyniwyd ac arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Mehefin 2018 fel rhai cywir. **(CJ/RE).**

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 **Arwydd Cyflymder Radar –** adroddiad gan y Clerc ei fod am wneud fwy o ymholiadau gyda swyddog o'r Adran Briffyrdd er mwyn darganfod cwmni tebyg i Cwmni Elan City sydd yn cynnig arwydd cyflymder ac hefyd gweld a oes grantiau cymunedol gan y Cyngor Sir all elwa'r Cyngor Cymdeithas.

5.2 **Etholwyd Mr Raymond Evans fel ail-gynrychiolydd y Cyngor ar Gangen Mon o Un Llais Cymru.**

6 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

6.1 **Cysoni Adroddiad & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/5/2018 -** cafwyd esboniad llawn o holl wariant a derbyniadau y Cyngor am Mis Mai 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

6.2 **Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Mehefin 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy taliadau a derbyniadau y Cyngor am Mis Mehefin 2018 ac fe gytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol.

6.3 **Diolchiadau am Rhoddion** – nodwyd llythyr o ddiolch wedi ei derbyn am rhodd y Cyngor oddiwrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

6.4 **Taliadau Hawlio Costau Gan Aelodau y Cyngor** – er mwyn cadarnhad, fe ddarllenodd y Clerc argymellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac fe cyfeiriodd at yr hawl sydd gan aelodau i hawlio am costau yn unol a Adran 151 o Fesur Llywodraeth Leol 2011.

6.5 **Archwilydd Mewnol –** darllenodd y Clerc adroddiad yr Archwilydd Mewnol, Cwmni Mri I G Jones, Llangefni gyda sylwadau ac argymellion y dylid paratoi cofrestr manwl o'r asedau ac nid yw rheoliadau RTI (Real Time Information) yn cael eu dilyn yn gywir trwy yrru manylion cyflog a treth i fewn ar lein yn brydlon ac fod hyn yn gwneud y Cyngor yn atebol am ddirwyon a ellir bod yn rhai cannoedd o bunnau erbyn hyn.

7 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

7.1 **Cais Llawn ar Gyfer Codi 6 Annedd ynghyd a Creu Mynedfa Newydd i Gerbydau ar dir yn yr Hen Safle yn: Little Chef, Ffordd Caergybi, Gaerwen – 33C118D.**

Sylwadau: Croesawyd ac fe cefnogwyd datblygu'r safle mewn egwyddor ond dangoswyd pryder fod y cynllun yn gor-ddatblygiad ac nid oes digon o le i 6 Annedd o ystyried fydd rhaid creu meysydd parcio i pob annedd. Hefyd, roedd pryder ynghylch a carthffosiaeth ac bydd cynnydd mewn traffig all creu anhawster i cymdogion eraill sydd yn byw gerllaw. Gofynnodd yr aelodau i'r Clerc anfon llythyr i'r Adran Cynllunio yn gofyn am gopi o'r hen gynllun a penderfyniad caniatad cynllunio er mwyn gallu cymharu'r newidiadau.

Arwyddo.....

7.2 Cais Tynnu Ymrwymiad Cynllunio 106A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 oddiar Caniatad Cynllunio 33C102F/DA yn: Herb Garden, pentre Berw, Gaerwen – 33C102J.

Sylwadau : Dim sylwadau ond nodi mai Stad Llain Capelulo yw'r enw newydd sydd wedi ei mabwysiadu.

8 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

8.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu – Gadlys, Gaerwen (33C318) – CANIATAD.

8.2 Cais Codi Garej Bren Domestig – Rhyd yr Arian Bach, Gaerwen (33C319) – CANIATAD.

9 MATERION CAEAU CHWARAE.

9.1 Gweddillion carthffosiaeth perchennog 123 Gaerwen Uchaf wedi golchi o dan y ffens ac ar hyd gwyneb mat offer y Cae Chwarae - **oherwydd pryder Iechyd a Diogelwch y Clerc i anfon llythyr i berchennog y tŷ yn gofyn am eglurhad a sicrhau nad oedd hyn am gario ymlaen.**

9.2 **Ail-Wynebu Offer Cae Chwarae Cae Mawr** – dangoswyd pryder fod yr amser wedi dod fod angen ystyried ail-wynebu ofer y Cae Chwarae – Y Clerc I gysylltu gyda GL Jones Playground a derbyn dyfnbris erbyn y cyfarfod nesaf. Cyn symud ymlaen roedd Cyng Ian Owen am drefnu ail dyfnbris er mwyn cymharu.

9.3 **Gordyfiant Canghennau Cae Chwarae Cae Mawr** – Cyng Cynrig Jones i gysylltu gyda Mr Dafydd Hughes er mwyn trefnu dyfnbris erbyn y cyfarfod nesaf.

9.4 **Cloddiau Cae Chwarae Mawr –** angen torri – cysylltu gyda Mr O G Jones.

9.5 **Torri Coeden 144 Gaerwen Uchaf** – cwyn fod canghennau yn tyfu dros ffens ty y perchennog i'r Cae Chwarae – penderfynwyd anfon llythyr yn gofyn iddo ei thrimio a tacluso.

9.6 **Llythyr CPD IAU Y Gaerwen** – darllenwyd llythyr wedi ei dderbyn yn gofyn am ganiatad defnyddio'r Cae Chwarae Mawr ar gyfer chwarae hyfforddi a gemau cystadleuol. Penderfynwyd yr aelodau nad oedd y Cae yn addas ac ei fod wedi ei osod, yn briodol, ar gyfer chwarae i pawb yn y pentref ac fod polisi yswiriant y Cyngor yn adlewyrchu hyn. **Y Clerc i anfon ymateb yn nol i'r Clwb erbyn y cyfarfod nesaf.**

9.7 **Safle y Gofeb & Gardd y Mileniwm** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Mr B Sinnott ac atgoffa am y gwaith cafwyd ei osod iddo y llynedd a gofyn iddo cwblhau hyn yn unol a'r dyfnbris rhoddwyd. **Cytunwyd yr aelodau gyda trefniant y Clerc.**

10 MATERION LLWYBRAU.

10.1 **Angen torri gordyfiant ar hyd Llwybr 16** – nodwyd fod Mr Dafydd Hughes wedi gwneud y gwaith oedd angen.

10.2 DIM MATERION ERAILL YN CODI.

11 MATERION PRIFFYRDD.

11.1 Lon Graig – Angen Torri Gordyfiant – Clerc I gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

11.3 Rhybudd CSYM – Gorchymyn Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro – Croesfan Rheilffordd Gaerwen (Rhif 2 – 2018)..

12. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

12.1 Newyddion Prosiect Grid Cenedlaethol – er gwybodaeth yn unig.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24ain GORFFENNAF 2018.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:40yh.